

ATODIAD / ENCLOSURE
D

CYNGOR SIR YNYS MON / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

CYFARFOD:	PWYLLGOR SAFONAU
DYDDIAD:	12 MAWRTH 2015
TEITL YR ADRODDIAD:	SESIYNAU HYFFORDDI AR GYFER CLERCOD CYNGHORAU TREF A CHYMUNED AR Y CÔD YMDDYGIAD
PWRPAS YR ADRODDIAD:	DERBYN RHAGOR O GYFARWYDDIADAU GAN Y PWYLLGOR SAFONAU
ADRODDIAD GAN:	AWENA WALKDEN, CYFREITHWRAIG LLYWODRAETHIANT CORFFORAETHOL
SWYDDOG CYSWLLT:	AWENA WALKDEN, CYFREITHWRAIG LLYWODRAETHIANT CORFFORAETHOL (EST 2563)

1. RHAGARWEINIAD A CHEFNDIR

Rôl y Pwyllgor Safonau yw hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad ymysg aelodau a'u cynorthwyo i gydymffurfio gyda'r Côt Ymddygiad. Rhoddir pwyslais mawr ar hyfforddi aelodau ac, fel y gwyddoch, trefnwyd pedwar sesiwn hyfforddi ym mis Medi 2013 yn benodol ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned.

Oherwydd diffyg cefnogaeth i'r hyfforddiant a ddarparwyd ym mis Medi 2013, penderfynodd y Pwyllgor Safonau newid y drefn yn Hydref 2014 a rhoi hyfforddiant i glercod y cynghorau cymuned yn unig, gan mai o'u plith nhw oedd y rhan fwyaf o'r rheini a fynychodd y sesiynau hyfforddi yn 2013.

Cynhaliwyd y sesiwn hyfforddi ar 30 Hydref 2014 (10:00am - 12:00pm), ac mae copi o'r sleidiau hyfforddiant o'r sesiwn ynghlwm yn "**Atodiad 1**" i'r Adroddiad hwn. (17471/233773)

Mae'r adroddiad hwn yn adolygu'r lefelau presenoldeb yn y sesiynau hyfforddi, yn gwneud cynigion o ran y camau y mae angen eu cymryd a chynigion hefyd ar gyfer digwyddiadau hyfforddiant i'r dyfodol.

2. PRESENOLDEB YN Y SESIYNAU HYFFORDDI

Mae manylion ynghylch y niferoedd a oedd yn bresennol i'w gweld yn "**Atodiad 2**". (17471/207993)

Cafwyd atborth cadarnhaol i'r hyfforddiant a gellir gweld copïau o'r ffurflenni atborth yn "**Atodiad 3**". (17471/237948)

3. CAMAU ANGENRHEIDIOL

O atodiadau 2 a 3, gellir gweld yn glir y cafwyd cefnogaeth dda i'r hyfforddiant hwn.

O'r 40 o Gyngorau Cymuned ar draws Ynys Môn, roedd 29 wedi eu cynrychioli yn yr hyfforddiant sy'n cyfateb i 73% o Gyngorau Tref a Chymuned yr Ynys.

Mae hyn yn dangos fod yr hyfforddiant yn fwy llwyddiannus na'r hyfforddiant a roddwyd y llynedd gan Un Llais Cymru, ac, o'r herwydd, mae'n ymddangos bod y Cyngorau Tref a Chymuned wedi ymateb yn dda i'r gwahoddiad ar gyfer clercod yn unig ac efallai bod hynny o ganlyniad i'r ffaith ein bod wedi pwysleisio iddynt yn yr ohebiaeth a anfonwyd cyn y sesiwn pa mor bwysig oedd iddynt gael dealltwriaeth dda o'r Côt Ymddygiad ac, ymhellach, aeth Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor Safonau i gyfarfod o Glercod Cyngorau Tref a Chymuned yn gynharach yn y flwyddyn lle ailadroddwyd y neges hon.

4. CAMAU A GYMERWYD

Fel ymarfer yn yr wythnos ar ôl yr hyfforddiant, ysgrifennwyd at y clercod a ddaeth i'r sesiwn hyfforddiant i ddiolch iddynt am fynychu ac i roi ffurflenni atborth iddynt eu cwblhau.

Ysgrifennwyd hefyd at y Cyngorau Cymuned na ddaethant i'r hyfforddiant i roi copi iddynt o'r deunydd o'r sesiwn hyfforddi, ac i ddwyn sylw at y nifer fawr a ddaeth i'r sesiwn a pha mor bwysig oedd iddynt fynychu digwyddiadau o'r fath yn y dyfodol.

Gellir gweld copïau o'r llythyrau hyn yn "**Atodiad 4**".

5. HYFFORDDIANT I'R DYFODOL

Canolbwyntiodd y sesiynau hyfforddi ar swyddogaethau'r clercod gan mai nhw sy'n gyfrifol am redeg eu Cyngorau ac am gynghori Cyngorwyr Cymuned ar y Côt Ymddygiad. O gofio llwyddiant y digwyddiadau hyfforddi, mae angen i'r Pwyllgor Safonau ystyried yr opsiynau isod ar gyfer hyfforddiant i'r dyfodol:-

- i. Parhau gyda'r hyfforddiant penodol ar gyfer clercod a gwneud hon yn sesiwn "ddiweddaru" bob blwyddyn.
- ii. Cynnal sesiwn hyfforddi debyg ar gyfer Cyngorwyr Tref a Chymuned y flwyddyn nesaf ond, o gofio'r nifer isel a fynychodd yn 2013, mae'n annhebygol y byddai hwn yn ddigwyddiad poblogaidd ynteu a ddylid symud y pwyslais yn ôl y flwyddyn nesaf ar aelodau'r cyngorau cymuned, h.y. targedu ar sail risg.
- iii. Edrych ar opsiynau gwahanol ar gyfer hyfforddiant, er enghraifft, mynd allan i hyfforddi'r Cyngorau Cymuned sydd â phroblemau penodol

Byddem yn croesawu eich sylwadau ar ba feysydd y dylem ganolbwyntio arnynt a'ch syniadau o ran sut y gellid gwella'r hyfforddiant.

6. ARGYMHELLIAD

Bod y Pwyllgor yn cytuno sut y dylid darparu hyfforddiant i'r dyfodol.

ATODIAD / ENCLOSURE

1

Côd Ymddygiad Code of Conduct

Clercod Cyngorau Cymuned
Ynys Môn
Community Council Clerks
Anglesey
Hydref / October 2014

"Cadw Tŷ"

"House Keeping"

- Sesawn gan -
- Mike Wilson, Cadeirydd Annibynnol y Pwyllgor Safonau
- Awena Walkden, Cyfreithwraig – Llywodraethiant Corfforaethol
- Lyn Ball, Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) Swyddog Monitro
- Iath
- Trefnadau / Cyfleusterau
- Amseriad
- Rhaglen
 - Cyfnewid gan y Cadeirydd
 - Cefndir a Swyddogaeth y Clerc

- Session by:-
- Mike Wilson, Independent Chairman of the Standards Committee
- Awena Walkden, Solicitor – Corporate Governance
- Lynn Ball, Head of Function (Council Business)/Monitoring Officer
- Language
- Arrangements / Facilities
- Timing
- Agenda
 - Introduction from the Chairman
 - Background and Role of the Clerk

"Cadw Tŷ"

"House Keeping"

- Y Cód
 - Yn gyffredinol
 - Ymddygiad
 - Yr hyn y mae'n rhaid iddynt ei wneud
 - Yr hyn y mae'n rhaid iddynt beidio â'i wneud
 - Diddordebau
- Llunioeth
- Pŵerau'r Cód
- Enghreifftiau o achosion y cafwyd gwybod amdanynt
 - Trefnadaeth dan arweiniad Mike Wilson ac Awena Walkden
- Gwybodaeth ynghylch cysylltiadau ac adnoddau
- Crynodeb ahhweddol

- The Code
 - Generally
 - Behaviour
 - What they must do
 - What they must not do
 - Interests
- Refreshments
- Policing the Code
- Examples of reported cases
 - Discussion to be led by Mike Wilson and Awena Walkden
- Contact information and resources
- Key summary

Cefndir	Background
<ul style="list-style-type: none"> • Cynrychiolwyr Cymunedol • Dyletawydd statudol i weithredu'n foeseogol • Côd Ymddyglad Mandadol • Canlyniadau torri'r Côd <ul style="list-style-type: none"> - oesb personol - colli enw da - her gyfraithol 	<ul style="list-style-type: none"> • Community Representatives • Statutory duty to act ethically • Mandatory Code of Conduct • Consequences of breaching the Code <ul style="list-style-type: none"> - personal sanction - loss of reputation - legal challenge

4

Rôl y Clerc	Role of the Clerk
<ul style="list-style-type: none"> • Dioglyddau'n amrywio • 'y Clerc Hanfodol' • <u>Mae bob amswr yn ddyletawydd ar Gyngorwyrdd</u> • O leiaf:- <ul style="list-style-type: none"> - Copi o'r Côd - Ymgymieradau - Cadw Ymgymieradau - Cadw Ffurfienni Datgan - Cofnodion - Gweld y broblem a chael cyngor - Presenoldeb ar y We? - Trosglwyddo Aseadau? 	<ul style="list-style-type: none"> • Expectations vary • 'the Essential Clerk' • <u>Always the Councillor's duty</u> • As a minimum:- <ul style="list-style-type: none"> - Copy Code - Undertakings - Retain undertakings - Retain Declaration Forms - Minutes - See the issue and get advice - Web presence? - Transfer of Assets?

5

Y Côd - yn Gyffredinol	The Code - Generally
<p>1. Pa bryd mae'r Côd yn berthnasol</p> <ul style="list-style-type: none"> • <u>Ar fusnes y Cyngor</u> <ul style="list-style-type: none"> - Y tu mewn i'r Cyngor - Y tu allan i'r Cyngor - Ffurfiol ac anffurfiol • "Bob amswr ac mewn unrhyw swyddogaeth" <ul style="list-style-type: none"> - Defnydd amhirdodol o'r swydd • <u>Down anfr!</u> - rhaid bod cysylltied, e.e. 	<p>1. When does the Code apply?</p> <ul style="list-style-type: none"> • <u>On Council business</u> <ul style="list-style-type: none"> - Inside the Council - Outside the Council - Formal and Informal • "At all times and in any capacity" <ul style="list-style-type: none"> - Improper use of position - <u>Disputes</u> - must be a link e.g.

6

<p>Y Côd – Ymddygiad (1)</p> <p>Yr hyn y mae'n rhaid i Gyngorwyr ei wneud</p> <ul style="list-style-type: none"> • Hyrwyddo cydraddokdeb • Trin eraill â pharch • Darparu mynediad i wybodaeth • Gwneud penderfyniadau ar sail y rhinweddau • Rhai sylw dyledus i gyngor Swyddogion • Glynw wrth unrhyw reolau ynghylch costau • Rhai gwybod am unrhyw achosion o dorri'r Côd neu ymddygiad troseddol gan Gyngorwyrdd arall • Cydwethredu gydag ymchwiliadau 	<p>The Code – Behaviours (1)</p> <p>What Councillors must do</p> <ul style="list-style-type: none"> • Promote equality • Treat others with respect • Provide access to information • Make decisions on the merits • Have due regard to advice of Officers • Abide by any rules on expenses • Report any breaches of the Code or criminal behaviour by another Councillor • Cooperate with investigations
---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

7

<p>Y Côd – Ymddygiad (2)</p> <p>Yr hyn y mae'n rhaid i Gyngorwyr beidio â'i wneud</p> <ul style="list-style-type: none"> • Derbyn rhoddion/teygarwch answyddogol • Datgelu gwybodaeth a roddwyd yn gyfrinachol • Datlyddio adnoddau'r Cyngor mewn modd amhoddol • Gwneud cwynion blinderus neu folesus • Cessio cael mantais • Dwyn antri ar y swydd 	<p>The Code – Behaviours (2)</p> <p>What Councillors must not do</p> <ul style="list-style-type: none"> • Accept unofficial gifts/hospitality • Disclose information given in confidence • Use Council resources improperly • Make vexatious or malicious complaints • Seek to gain an advantage • Bring the office into disrepute
-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

8

<p>Diddordebau Personol (1) – Yn Gyffredinol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhaid i'r cyhoedd fod yn hyderus fod y penderfyniadau er budd gorau iddynt • Diddordeb proffesiynol neu bersonol y tu allan i'w swyddogaeth a all wrthdaro gyda'u dyletswydd fel Cyngorwyrdd o ran gwasanaethu'r gymuned • Os oes gan Gyngorwyrdd diddordeb yna rhaid iddo/iddi ei ddatgan ac efallai y bydd raid iddynt adael yr ystafell 	<p>Personal Interests (1) Generally</p> <ul style="list-style-type: none"> • The public must have confidence that decisions are in their best interests • A professional or personal interest outside their role which may conflict with their duty as a Councillor in serving the community • If a Councillor has an interest they must declare it and may have to leave the room
--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

9

Diddordebau Personol (2) – Personal Interests (2)
Yn Gyffredinol ... parhad Generally ... cont

Mae diddordeb personol yn bodoli os yw'r aitem dan drafodaeth yn ymwneud â / yn debygol o seil effaith ar un neu ragor o'r categorïau a restrir yn y Côd

A personal interest exists if the item under discussion relates to / is likely to affect one or more of the categories listed in the Code

1. Y Cyngorydd
2. "Cydnabod agos personol" y Cyngorydd
3. Yn cael effaith ar y Cyngorydd (neu gydnabod agos personol) i raddau helaethach na rwyafrif eu hetholwyr
4. Yn cynnwys anffurfiol hefyd

- 1.The Councillor
- 2.The Councillor's "close personal associates"
- 3.Affects the Councillor (or their close personal associate) to a greater extent than the majority of their electorate
- 4.Includes informal too

Diddordebau Personol (3) - Personal Interests (3) -
Cydnabod Agos Personol Close Personal Associate

Pwy sy'n 'Gydnabod Agos Personol'

- Cyfeillion agos
- Cydweithwyr gyda chywylltadau cryf
- Cydnabod Busnes
- Perthnaseu agos
- Rhywun y bu mewn anghydfod â nhw
- Ond nid pobl y daw ar eu traws yn achyruoi, perthnaseu pell neu bobl y deeth i gwylltad â nhw drwy'r gwaith

Who is 'a Close Personal Associate'

- Close friends
- Colleagues with strong connections
- Business associates
- Close relatives
- Or someone with whom they have been in dispute
- But not casual acquaintances, distant relatives or people whom they come into contact with through work

Diddordebau Personol (4) – Personal Interests (4) -
Categoriâu Categories

- Swydd neu fusnes
- Cyflogwr neu fusnes y maent yn bartner/cyfarwyddwr ynddo
- Rhywun sydd wedi cyfrannu at eu costau etholiad neu dreulliau aelodau
- Unrhyw gwmni y mae ganddynt gyfranddaliadau o dros £25k ynddo, neu ragor nag 1% o gyfanswm gwerth y cyfranddaliadau ac sydd ag eiddo neu dir yn eich ardal
- Job or business
- Employer or a business in which they are a partner/director
- Someone who has contributed to their election costs or member expenses
- Any company where they have shares over £25k, or more than 1% of the total share value, and which has premises or land in your area

<p>Diddordebau sy'n Rhagfarnu (1) – Yn Gyffredinol</p> <p>Unrhyw ddiddordebau personol a fyddai, yn rhyb seilodau o'r cyhoedd, yn debygol o gael dylanwadu ar allu Cyngorydd i fod yn wrthrychol, er enghraifft:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Mae merch y Cyngorydd yn byw drws nesaf i safle lle bwriadir codi tai newydd - Mae mab y Cyngorydd yn mynychu ysgol leol y bwriadir ei chau 	<p>Prejudicial Interests (1) Generally</p> <p>Are personal interests which a member of the public would regard as likely to influence a Councillor's ability to be objective, for example:</p> <ul style="list-style-type: none"> - The Councillor's daughter lives next to a proposed site for a new housing development - The Councillor's son attends a local school which is due for closure
--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

16

<p>Diddordebau sy'n Rhagfarnu (2) - Datgan a Gadael y Cyfarfod</p> <p>Beth ddylai Cyngorwyr ei wneud os oes ganddynt Diddordeb sy'n Rhagfarnu?</p> <ul style="list-style-type: none"> - Datgan y diddordeb a gadael y cyfarfod yn ystod y drafodaeth - Rhaid iddynt beidio â chysio dylanwadu ar y penderfyniad - Rhaid iddynt beidio â gwneud unrhyw sylwadau ysgrifenedig neu lafar <p>ONI BAI</p> <ul style="list-style-type: none"> - Fod y Pwyllgor Safonau wedi rhoi caniatâd arbennig - Fod gan y cyhoedd hawl i siarad (ond rhaid iddynt adael ar ôl siarad) 	<p>Prejudicial Interests (2) – Declaration and Withdrawal</p> <p>What Do They Do if They Have a Prejudicial Interest?</p> <ul style="list-style-type: none"> - Declare the interest and leave the meeting during the discussion - Must not try to influence the decision - Must not make written or verbal representations <p>UNLESS</p> <ul style="list-style-type: none"> - The Standards Committee has granted a dispensation - The public have a right to speak (but they must leave after having spoken)
---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

17

<p>Diddordebau sy'n Rhagfarnu (2)</p> <p>Caniatâd Arbennig</p> <ul style="list-style-type: none"> - Sicrhau cydbwysedd rhwng cyfranogiad democrataidd a hyder cyhoeddus - Yn mynd y tu draw i ddiddordebau personol - Rheymau statudol cyfyngedig <ul style="list-style-type: none"> - dros hanner y Cyngorwyr yn rhannu diddordeb <ul style="list-style-type: none"> - hyder y cyhoedd - cyfran sylweddol o'r cyhoedd - cyllwriad aherwydd rôl/arbennigedd - sefydliad gwirfoddol - o ddiddordeb i'r ardal - Cais ysgrifenedig i'r Swyddog Monitro - Panel y Pwyllgor Safonau - Mynychu gwrandawled cyhoeddus - Efallai y bydd cyfyngiadau - Rhaidrwydd i ddatgelu 	<p>Prejudicial Interests (2)</p> <p>Dispensations</p> <ul style="list-style-type: none"> - Balance democratic participation with public confidence - Overreaches prejudicial interest - Limited statutory grounds: <ul style="list-style-type: none"> - half + Councillors share interest - public confidence - significant proportion of the public - justified by role/expertise - voluntary organisation - interest of locality - Written application to the Monitoring Officer - Standards Committee Panel - Attendance at public hearing - May be limitations - Disclosure requirement
-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

18

Diddordebau – Crynodeb Interests - Summary

- Diddordeb Personol
 - datgan a chymryd rhan yn y drafodaeth
 - tor-amod technegol
- Diddordeb Personol ac un sy'n Rhagfamu
 - datgan a gadael y cyfarfod
 - rieg ddifrifol
- Cyflwyno cais am ganiatâd arbennig?
- Edrych ymlaen a chyflwyno cais am ganiatâd arbennig
- Personal interest
 - declare and participate
 - technical breach
- Personal and prejudicial interest
 - declare and withdraw
 - serious risk
- Apply for a dispensation?
- Look ahead and apply for a dispensation

Seibiant ar gyfer
Lluniaeth
15 munud

Refreshment
Break
15 minutes

Plismona'r Côd (1)

**SWYDDOGAETHAU A
CHYFRIFOLDEBAU**

- 1.Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
- 2.Panel Dyfranu Cymru
- 3.Pwyllgor Safonau

Policing the Code (1)

**ROLES AND
RESPONSIBILITIES**

- 1.Public Services Ombudsman for Wales
- 2.Adjudication Panel for Wales
- 3.Standards Committee

Plismona'r C6d (2) parhad ... Policing the Code (2) cont ...

<p>1. Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru</p> <ul style="list-style-type: none"> - rôl ddeublyg - "yr hidliad cyntaf" dan y C6d - prawf trothwy - ymchwilladod / erlyniadod - dim camau pellach neu - cyfeirio i'r Pwyllgor Safonau neu - cyfeirio i Banel Dyfarnu Cymru 	<p>1. Public Services Ombudsman for Wales</p> <ul style="list-style-type: none"> - dual role - "first sift" under the Code - threshold test - investigative/prosecutorial - no further action or - refer to Standards Committee or - refer to Adjudication Panel for Wales
---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

22

Plismona'r C6d (2) parhad ... Policing the Code (2) cont ...

<p>2. Panel Dyfarnu Cymru</p> <ul style="list-style-type: none"> - "Pwyllgor Safonau" cenedlaethol - Statws tribwriaid / 3 aelod / cyfrathwr / bargyfrathwr yn cadeirio - Yn derbyn: <ul style="list-style-type: none"> - cyswrtadau gan yr Ombwdsmon - apeladau yn erbyn Pwyllgorau Safonau - Gwrandawledau <ul style="list-style-type: none"> - yn ghoeddu os oes hwr - gwrthwynebol - cynrychiolaeth gyfrathol - "ar y papurau", os oes yn unig - Coebau ar ydd ar gael - dim camau pellach - oerdd - stat am hyd at 1 blyn - Ouerhardd am hyd at 5 mlynedd 	<p>2. Adjudication Panel for Wales</p> <ul style="list-style-type: none"> - national "Standards Committee" - tribunal status / 3 members / chaired by solicitor / barrister - receives: <ul style="list-style-type: none"> - referrals from the Ombudsman - appeals against Standards Committee - hearings <ul style="list-style-type: none"> - in public, if contested - adversarial - legal representation - "on the papers", if sanction only - sanctions available <ul style="list-style-type: none"> - no further action - censure - suspension up to 1 year - disqualification up to 5 years
----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

23

Plismona'r C6d (2) parhad ... Policing the Code (2) cont..

<p>3. Pwyllgor Safonau</p> <ul style="list-style-type: none"> - 9 Aelod <ul style="list-style-type: none"> - 5 wedi eu cyfieithol - 2 gynghorydd sir - 2 gynghorydd cymuned - dyletswyddau statudol <ul style="list-style-type: none"> - cyswrtadau gan yr Ombwdsmon <ul style="list-style-type: none"> - awgrymiadau - gwrandawledau llawn - yn dyhoeddu - gael y cyswrt gael cynrychiolaeth gyfrathol - stat i'r Panel Dyfarnu - stat am gyfnod hyd at 6 m - cyfrifoddebu eraill <ul style="list-style-type: none"> - gweler yr adroddiad i'r Cymgor 8/5/2014 - caniatâd arbennig - hyfforddiant a datblygiad - adolygu cofrestrau 	<p>3. Standards Committee</p> <ul style="list-style-type: none"> - 9 Members <ul style="list-style-type: none"> - 5 co-opted - 2 county councillors - 2 community councillors - statutory duties <ul style="list-style-type: none"> - referrals from Ombudsman <ul style="list-style-type: none"> - preliminary hearings - full hearings - in public - parties may be legally represented - appeal to Adjudication Panel - maximum 6 months suspension - other responsibilities <ul style="list-style-type: none"> - see report to Council 8/5/2014 - dispensations - training and development - review registers
--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

24

<p>Trafodaeth dan arweiniad Mike Wilson ac Awena Walkden</p>	<p>Discussion to be led by Mike Wilson and Awena Walkden</p>
25	

<p>Gwybodaeth Gyswilt ac Adnoddau (1)</p>	<p>Contact Information and Resources (1)</p>
<ul style="list-style-type: none"> • Os oes gennych unrhyw amheuaeth, gofynnwch i'r Swyddog Monitro 	<ul style="list-style-type: none"> • If in doubt ask the Monitoring Officer
<ul style="list-style-type: none"> - Lynn Bell - Swyddog Monitro rhl fôn 01248 752586 / about: lbell@englesey.gov.uk - Robyn Jones - Dipwy Swyddog Monitro rhl fôn 01248 752134 / about: rsjones@englesey.gov.uk - Awena Walkden - Cystrawng (Llywodraethu Corfforaethol) rhl fôn 01248 752583 / about: awalkden@englesey.gov.uk - Mike Wilson, Cadarnyski y Pwyllgor Safonau rhl fôn 01248 752586 / about: mwilson@englesey.gov.uk 	<ul style="list-style-type: none"> - Lynn Bell - Monitoring Officer tel.01248 752586 / email: lbell@englesey.gov.uk - Robyn Jones - Deputy Monitoring Officer tel 01248 752134 / email: rsjones@englesey.gov.uk - Awena Walkden - Selector (Corporate Governance) tel 01248 752583 / email: awalkden@englesey.gov.uk - Mike Wilson, Chair of the Standards Committee tel.01248 752586 / email: mwilson@englesey.gov.uk
26	

<p>Gwybodaeth Gyswilt ac Adnoddau (1)</p>	<p>Contact Information and Resources (1)</p>
<ul style="list-style-type: none"> • Cód Ymddygiad Statudol 	<ul style="list-style-type: none"> • Statutory Code of Conduct
<ul style="list-style-type: none"> - Y Cód http://www.banffshire.gov.uk/eng/2012/06/20/20120620_20120620.pdf - Cofrestrau http://www.banffshire.gov.uk/eng/2012/06/20/20120620_20120620.pdf - Achosion a gyhoeddiwyd http://www.banffshire.gov.uk/eng/2012/06/20/20120620_20120620.pdf - Cofrestrau Achosion http://www.banffshire.gov.uk/eng/2012/06/20/20120620_20120620.pdf - Ffynhonnau Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus http://www.banffshire.gov.uk/eng/2012/06/20/20120620_20120620.pdf 	<ul style="list-style-type: none"> - Code http://www.banffshire.gov.uk/eng/2012/06/20/20120620_20120620.pdf - Cofrestrau http://www.banffshire.gov.uk/eng/2012/06/20/20120620_20120620.pdf - Ffynhonnau Achosion http://www.banffshire.gov.uk/eng/2012/06/20/20120620_20120620.pdf - Dispardeb http://www.banffshire.gov.uk/eng/2012/06/20/20120620_20120620.pdf - Principles of Conduct in Public Life http://www.banffshire.gov.uk/eng/2012/06/20/20120620_20120620.pdf
27	

Casgliad

- Trin eraill gyda pharch ac ystyriaeth
- Paddwch & dylanwedu ar unrhyw benderfyniad sy'n debygol o fod er budd i chi neu rai sydd agosaf atoch
- Prawf trothwy'r Ombudsman
 - Tystiolaeth sylweddol bod y oed wedi cael ei domi mewn modd ddiethol sydd, os caiff ei brofi, yn debygol o arwain at goeb gan y Pwyllgor Safonau / Panel Dyfarnu
- Nodweddion Gwesthygol
 - Males
 - Budd Personol
 - Nwedd i eraill
 - Torri'r Côd dro ar ôl iro
- Gwestiynau a'r unweith ar mwyn lliniar/unioni'r setyllfa
- Cydwethredu gydag unrhyw ymchwiliad gan yr Ombudsman

Conclusion

- Treat others with respect and consideration
- Do not influence any decision which is likely to benefit you or "yours"
- Ombudsman's threshold test:
 - Significant evidence of a serious breach which, if proved, is likely to result in a sanction by Standards Committee/Adjudication Panel
- Aggravating features
 - Malice
 - Personal gain
 - Damage to others
 - Repeated breaches
- Act quickly to mitigate/repair
- Cooperate with any Ombudsman investigation

Nodyn Briffio i Aelodau

Rhyddid Mynegiant Gwleidyddol v Y Côt Ymddygiad

1. Côt Ymddygiad yr Aelodau ("y Côt")

Ymysg pethau eraill, mae'n rhaid i Aelodau, yn unol â'r Côt:-

- Drin eraill gyda pharch ac ystyriaeth
- Peidio â bwlio na hambygio eraill
- Peidio ag ymddwyn mewn ffordd y gellid ei hystyried yn rhesymol fel un sy'n dwyn anfri ar rôl yr Aelod neu'r Cyngor.

2. Mynegiant Gwleidyddol

Mae achosion a benderfynwyd gan y Llys dros y blynyddoedd, ynghyd ag achosion sy'n dal i esblygu, wedi sefydlu'r diffiniad isod o'r hyn sy'n cael ei gyfrif fel mynegiant gwleidyddol:-

"Gwybodaeth am faterion sy'n ymwneud â threfnu bywyd economaidd, cymdeithasol a gwleidyddol y wlad..."

Beth mae hyn yn ei olygu mewn gwirionedd ac yn ymarferol? Mae'r diffiniad o sylwadau sy'n cael eu hystyried yn fynegiant gwleidyddol yn un eang, a gall gynnwys sylwadau sy'n ymwneud â sut mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal, sut mae sefydliadau'n cael eu gweinyddu a sut mae pobl yn cyflawni eu dyletswyddau cyhoeddus.

Mae'r Uchel Lys a'r Ombwdsmon wedi dweud yn benodol bod disgwyl i wleidyddion (ac Uwch Swyddogion) fod â "chroen tewach" nag eraill; yn ôl pob tebyg oherwydd eu bod wedi dewis gweithredu o fewn amgylchedd gwleidyddol.

Mae'r disgwyliad hwn yn arbennig o berthnasol i drafodaethau gwleidyddol, sef trafodaethau a ddisgrifiwyd yn aml gan yr Ombwdsmon fel "taro a gwrthdaro". Mae'n glir bod sylwadau am wleidyddion eraill sy'n wawdlyd, yn goeglyd neu'n ddychanol yn cwrdd â'r diffiniad o fynegiant gwleidyddol. Fodd bynnag, os gellir dehongli'r sylwadau hynny'n rhesymol fel rhai maleisus, hiliol, homoffobig ac ati, neu fel rhai sydd mor eithafol eu bod yn amhriodol, mae sylwadau o'r fath yn colli'r diogelwch cyfreithiol ychwanegol a roddir i fathau eraill o fynegiant gwleidyddol.

Nid yw sylwadau a ddiffinnir fel rhai "gwleidyddol" wedi eu cyfyngu'n unig i'r rheini a wneir o fewn cyfarfodydd ffurfiol y Cyngor a gallant gynnwys sylwadau gan Aelodau i'r cyfryngau, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol. Mae'n cynnwys deunydd ysgrifenedig yn ogystal â deunydd llafar.

Dim ond y sylwadau hynny y gellir ystyried yn rhesymol (h.y. yn wrthrychol) eu bod yn ymosodol iawn, yn warthus, yn hiliol, yn faleisus neu'n gwbl amhriodol yn yr iaith a ddefnyddir sy'n debygol o gwrdd â trothwy'r Ombwdsmon ar gyfer ymchwilio iddynt mewn achosion pan fo'r pwnc yn un gwleidyddol.

Yn yr un modd, pan fo Aelodau yn codi "materion gwleidyddol" gydag Uwch Swyddogion gall yr Ombwdsmon hefyd wrthod ymchwilio os yw ef/hi o'r farn bod gan yr Aelod hawl i gwestiynu'r Swyddog am bryderon dilys. Wrth gwrs mae'r cyd-

destun yn hollbwysig a byddai statws y Swyddog, rôl yr Aelod a'r ffordd yr oedd yr Aelod wedi dewis mynd ar drywydd y mater oll yn ffactorau perthnasol.

3. Gwrthdaro gyda'r Côt

Mae gwrthdaro posib rhwng darpariaethau'r Côt, fel y disgrifir nhw ym mharagraff 1 uchod, a hawl Aelodau i feirniadu gwleidyddion eraill.

Ym mharagraff 4 isod nodir rhai enghreifftiau o achosion a benderfynwyd ac sy'n rhoi blas ar sut mae'r llysoedd yn gweld pethau ar hyn o bryd:-

4. Enghraifft A – R (ar sail Calver) v Panel Dyfarnu Cymru [2012] EWHC 1172

Yn yr achos hwn, penderfynodd y Panel Dyfarnu (y Pwyllgor Safonau Cenedlaethol i bob pwrpas) gadarnhau dyfarniad y Pwyllgor Safonau fod Aelod wedi methu â dangos parch ac ystyriaeth tuag at eraill trwy wneud sylwadau ar-lein am gyd-aelodau a'r ffordd yr oedd y Cyngor yn cael ei redeg.

Cafodd yr Aelod gerydd gan y Pwyllgor Safonau ac ar ôl i'w apel i'r Panel Dyfarnu fethu, fe wnaeth gais am adolygiad barnwrol o'r achos yn yr Uchel Lys. Roedd y Llys yn fodlon bod y sylwadau a wnaed, a oedd yn niferus ac yn aml, yn rhai coeglyd a dychanol ond, oherwydd bod y rhan fwyaf o'r cynnwys yn ymwneud â'r ffordd yr oedd y Cyngor yn cael ei redeg a gallu ei Aelodau a'i Glerc (Cyngor Cymuned oedd hwn), daeth y Llys i'r casgliad bod y sylwadau yn disgyn o fewn y diffiniad o fynegiant gwleidyddol. O'r herwydd, roeddent yn denu diogelwch cyfreithiol ychwanegol dan Erthygl 10 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a chasglwyd felly fod dyfarniad y Pwyllgor Safonau, a gafodd ei gadarnhau gan y Panel Dyfarnu, yn ymyrraeth anghymesur gyda hawl yr Aelod i ryddid mynegiant gwleidyddol. Cafodd y penderfyniad gwreiddiol i roi cerydd i'r Aelod ei roi o'r neilltu felly gan y Llys.

Enghraifft B - Livingstone v Panel Dyfarnu Lloegr [2006] EWHC 2533 (Gwein.); [2006]

Mae'r Aelodau'n siwr o gofio'r achos hwn, pan siaradodd Maer Llundain (ar y pryd) gyda gohebydd yn ei gyffelybu i gard mewn gwrsyll-garchar. Casglodd yr Uchel Lys nad oedd y sylw hwn yn enghraifft o ryddid i fynegiant gwleidyddol oherwydd nad oedd y geiriau wedi eu defnyddio mewn swyddogaeth swyddogol nac wrth i Mr. Livingstone gyflawni ei swyddogaeth fel Maer. O'r herwydd, nid oedd y Côt Ymddygiad yn berthnasol ac, wrth gwrs, os nad oedd y Côt yn berthnasol nid oedd modd iddo gael ei dorri.

Fodd bynnag, fe gasglodd y Llys na fyddai'r Maer fod wedi bod ag unrhyw hawl i ddiogelwch uwch ar gyfer mynegiant gwleidyddol petai'r Côt yn berthnasol, a hynny oherwydd nad oedd yn mynegi barn gwleidyddol ond, yn hytrach, ei fod yn "indulging in offensive abuse."

I'n dibenion ni, petai'r achos hwn yn digwydd yn awr dan y Côt ar gyfer Cymru, byddai'r Maer wedi bod yn torri'r Côt oherwydd bod ein Côt ni'n dweud yn benodol bod y ddyletswydd i beidio â dwyn anfri ar rôl yr Aelod yn berthnasol pan fo'r Aelod yn gweithredu mewn unrhyw swyddogaeth (gan gynnwys swyddogaeth bersonol). Cafodd y Côt yng Nghymru ei newid o ganlyniad i'r penderfyniad yn achos Livingstone.

Sut bynnag, mae sylwadau'r Llys ynghylch dehongli mynegiant gwleidyddol yn ddilys a dibynnir yn rheolaidd arnynt mewn achosion Llys.

Enghraifft C – Y Cyng. Heesom - APW/005/2010-011/CT

Yn yr achos hwn roedd nifer o honiadau a chasgliadau ar bob un o'r materion. O ganlyniad i'w heffaith net fe gafodd yr Aelod ei anghymwyso. Fodd bynnag, wrth asesu rhai o'r honiadau daeth y Llys i gasgliad penodol fod honiadau'r Aelod fod gwasanaeth/ adran o'r Cyngor yn "shambolic" ac yn "shambles", yn fynegiant gwleidyddol oherwydd eu bod yn ymwneud â'r ffordd yr oedd y Cyngor yn cael ei redeg. Roedd y sylwadau felly yn disgyn o fewn y diogelwch yn Erthygl 10 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a chasglwyd nad oedd y sylwadau felly'n torri'r Côd.

Enghraifft D – Y Cyng. Jones - APW/004/2012-013/AT

Yn yr achos hwn, penderfynodd y Llys nad oedd sylwadau'r Cynghorydd Jones wedi eu cyfeirio tuag at gyd-aelod ond at Swyddog. Fel gweithiwr cyflogedig, dylai bod gan y swyddog hawl i gael ei ddiogelu rhag ymddygiad amharchus a rhag cael ei hambygio (h.y. yn unol â chyfraith cyflogaeth). O'r herwydd, nid oedd yr ymddygiad yn disgyn o fewn y trefniadau diogelwch ar gyfer "mynegiant gwleidyddol". Byddwch yn sylweddoli felly bod yr achos hwn, a benderfynwyd ar ôl 4A uchod, yn awgrymu bod y diogelwch uwch ar gyfer Aelodau wedi ei lastwreiddio pan fo Aelodau'n gwneud sylwadau sy'n ymwneud â Swyddogion.

5. Casgliad

Felly, os yw unrhyw sylw a wneir gan wleidydd yn "fynegiant gwleidyddol" (mae hwn wedi ei ddiffinio'n eang) bydd yn denu diogelwch uwch ac mae'n annhebygol y bydd yr Ombwdsmon yn ymchwilio i achosion o'r fath os cyflwynir cwyn.

Fodd bynnag, ni roddir diogelwch uwch os gwneir sylwadau sy'n atgas iawn neu'n ddifrifol iawn mewn unrhyw ffordd, yn arbennig felly os ydynt yn faleisus, yn rhan o ymgyrch sydd wedi ei thargedu neu os ydynt yn hiliol, yn homoffobig ac ati. Mae'r prawf yn un gwrthrychol. Hynny yw, nid yw'r bwriad a'r effaith yn berthnasol o ran a yw'r Côd wedi ei dorri ai peidio; er y gallent fod yn berthnasol i'r gosb.

Mae sylwadau a wneir yng ngwres trafodaeth, neu sylwadau unwaith ac am byth, yn hytrach na phatrwm o ymddygiad, hefyd yn llai tebygol o ddenu diddordeb yr Ombwdsmon.

Lynn Ball
Pennaeth Swyddogaeth(Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro

Crynodeb o achosion i'w hadrodd i'r Pwyllgor Safonau

<p>HYRWYDDO CYDRADDOLDEBA PHARCH</p> <p>APW/003/2011-012/CT, APW/005/2012-013/CT & APW/007/2012-013/CT – Cyngor Cymuned Coedpoeth</p>	<p>- Roedd 3 atgyfeiriad ar wahân gan yr Ombwdsmon ac fe'u hystyriwyd gan un tribiwnlys.</p> <p>- Yr honiadau oedd bod y cyn Gynghorydd wedi torri Côt Ymddygiad y Cyngor Cymuned uchod trwy ei ymddygiad a'i arestio wedi hynny am dorri'r heddwch yn ystod gwrthdystiad, methu dangos parch ac ystyriaeth i Glerc y Cyngor Cymuned, ei ymddygiad, ei arést, ei garcharu wedyn a diffyg cydweithredu gyda'r awdurdodau perthnasol yn codi o brotest mewn Llys Sirrol a'i fethiant i gydweithredu cydweithrediad wrth i'r Ombwdsmon archwilio'r honiadau</p>	<p>Yn absenoldeb unrhyw ymateb ac ystyrlon gan y cyn Gynghorydd daeth y tribiwnlys i benderfyniad unfrydol bod y cyn Gynghorydd, drwy ei weithgaredd yn torri'r Côt Ymddygiad a hefyd drwy ei agwedd annerbyniol tuag at yr ymchwilad a'r ffaith nad oedd yn talu unrhyw sylw i'r Côt yn gyffredinol, a bod hynny'n dangos nad oedd yn addas i ddal swydd gyhoeddus a'i fod yn anhwybygol o ddod yn addas dros y 5 mlynedd nesaf.</p>	<p>Felly fe benderfynodd y tribiwnlys y dylid ei wahardd am 5 mlynedd rhag bod yn aelod na dod yn aelod o'r Cyngor Cymuned neu unrhyw awdurdod perthnasol arall.</p>
------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

	hyn.		
<p>Cyngor Cymuned Llanfaelog</p>	<p>Gwnaed nifer o gwyrnion ynglŷn ag ymddygiad Cynghorydd o Gyngor Cymuned Llanfaelog. Honnwyd bod y Cynghorydd wedi defnyddio iaith ddrwg a'i fod wedi ymddwyn yn amhriodol yn ystod cyfarfod. Penderfynodd yr Ombwdsmon ymchwilio'r mater i benderfynu a oedd tystiolaeth o dorïadau o'r Côd Ymddygiad, sy'n gofyn am i aelodau ddangos parch ac ystyriaeth at eraill ac i beidio ag ymddwyn mewn dull a allai ddod ag anfrï ar y rôl o fod yn aelod ac ar y Cyngor ei hun. Cafwyd tystiolaeth gan bob aelod o'r Cyngor oedd yn bresennol yn y cyfarfod. Roedd y dystiolaeth a gasglwyd yn cefnogi'r ffaith i'r Cynghorydd gael ei glywed yn dweud geiriau annymunol o dan ei wynt. Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos bod yr iaith a ddefnyddiwyd yn cael ei chyfeirio'n benodol at unrhyw unigolyn. Dywedodd y Cynghorydd ei bod yn bosibl iddo fod wedi defnyddio'r iaith</p>	<p>Daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad bod y dystiolaeth yn awgrymu bod ymddygiad y Cynghorydd efallai wedi torri'r Côt. Fodd bynnag, tra na fyddai mewn unrhyw amgylchiadau yn cymeradwyo'r defnydd o iaith o'r fath, wrth ddod i'w benderfyniad, roedd yr Ombwdsmon yn dwyn mewn cof mai digwyddiad unigol oedd hwn a bod y sylwadau wedi eu gwneud yng ngwres y foment ac nad oeddent wedi eu cyfeirio at unrhyw berson arbennig. Ar sail hyn,</p>	<p>penderfynodd yr Ombwdsmon nad oedd angen cymryd unrhyw gamau pellach gyda'r materion a ymchwiliwyd.</p>

		<p>a ddisgrifiwyd fel ffordd o leisio ei rwystredigaeth yn ystod y cyfarfod.</p>	
<p>Cyngor Mwmblws</p>	<p>Cymuned Y</p>	<p>Honnodd Cynghorydd bod aelod arall o Gyngor Cymuned Y Mwmblws wedi methu â chadw at y Côd Ymddygiad. Yr honiad oedd bod y Cynghorydd oedd yn cael ei gyhuddo wedi dwyn anfri ar swydd Cynghorydd ac ar y Cyngor drwy wneud datganiadau camarweiniol am ei asedau i Dribwyllys Cyflogaeth. Barnodd yr Ombwdsmon nad oedd tystiolaeth i awgrymu y gallai ymddygiad y Cynghorydd fod wedi torri'r Côd. Ei gasgliad oedd y dylai ei adroddiad gael ei gyfeirio i Swyddog Monitro Dinas a Sir Abertawe i'w ystyried gan y Pwyllgor Safonau.</p>	<p>Daeth i'r casgliad bod ymddygiad y Cynghorydd mewn perthynas â datganiadau camarweiniol a wrnaeth ynglŷn â'i asedau yn cyfateb i dorri'r Côd yn yr ystyr ei fod wedi dwyn anfri ar ei swydd fel Cynghorydd a hefyd ar y Cyngor. Penderfynodd y dylai'r Cynghorydd gael ei ddiarddel o fod yn aelod o'r Cyngor am gyfnod o 18 wythnos.</p> <p>Yn dilyn hyn fe apeliodd y Cynghorydd i Banel Barnu Cymru. Fe gymeradwyodd y Panel yn unfrydol y penderfyniad bod y Cynghorydd wedi torri'r Côd Ymddygiad. Cymeradwyodd hefyd y penderfyniad i'w ddiarddel rhag bod yn aelod o'r Cyngor am gyfnod o 18 wythnos.</p> <p>Gellir gweld penderfyniad</p>

<p><u>DATGELLU A</u> <u>CHOFRESTRU</u> <u>DDIDDORDEB</u></p> <p><u>Cyngor Cymuned</u> <u>Blaengwrach</u></p>	<p>Derbyniodd yr Ombwdsmon gwyn bod Cynghorydd wedi torri'r Côt trwy barthau yn yr ystafell pan oedd y Cyngor Cymuned yn trafod materion yn ymwneud â'i gwr.</p> <p>Er bod cof y partion yn amrywio ynglŷn â'r union amgylchiadau lle roedd y Cynghorydd wedi aros yn yr ystafell pan roedd materion yn ymwneud â'i gwr yn cael eu trafod roedd yr Ombwdsmon o'r farn na ddylai fod wedi parthau yno. Cyfrifoldeb pob aelod yw penderfynu a oes ganddynt diddordeb personol a'i pedio ac nid yw safbwyntiau aelodau eraill ar y mater yn berthnasol. Hefyd, mae'n glir bod mater yn ymwneud â pherson sy'n perthyn mor agos i aelod yn achosi diddordeb personol a rhagfarnus.</p>	<p>Mae'r Côt ei hun a chyfarwyddyd yr Ombwdsmon i aelodau yn eithaf clir ar y materion hyn.</p> <p>Canfu'r Ombwdsmon bod tystiolaeth y gallai toriad fod wedi digwydd o dan ddarpariaethau perthnasol y Côt, ond ei bod yn annhebygol y byddai cosb yn cael ei osod pe bai'r toriad yn cael ei ganfod. Yn unol â'r gweithdrefnau, ymgynghorodd yr Ombwdsmon â'r Swyddog Montro, oedd yn cytuno bod cosb yn annhebygol ond dywedodd y byddai'n rhoddi cyngor priodol i'r Cyngor Cymuned ynglŷn â diddordebau personol.</p>	<p>Panel Dyfarnu Cymru yma.</p> <p>Casglodd yr Ombwdsmon nad oedd angen cymryd unrhyw gamau pellach yn amgylchiadau'r gwyn arbennig hon.</p> <p>O safbwynt pryderon ynglŷn â sylwadau amhriodol yn cael eu gwneud gan y Cynghorydd, nid oedd yr Ombwdsmon wedi ei ddarbwyllo bod y sylwadau fel y'u hadroddwyd yn darparu digon o dystiolaeth o doriad. Casgliad yr Ombwdsmon mewn perthynas â'r mater hwnnw oedd nad oedd tystiolaeth o doriad o dan y ddarpariaeth berthnasol.</p>
